# Ymgynghoriad ar newidiadau i fap prif afonydd Cymru

**DYDDIAD DECHRAU: 18/01/2016 – DYDDIAD GORFFEN: 29/02/2016**

Dan Ddeddf Dŵr 2014, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru gyfrifoldeb i gynnal a diweddaru map prif afonydd Cymru. Diffinnir prif afon fel un sydd wedi ei chynnwys ar fap y prif afonydd y gellir ei weld yma: Mapiau perygl llifogydd. Os yw cwrs dŵr yn cael ei ddynodi fel prif afon, bydd yn rhoi'r gallu i Cyfoeth Naturiol Cymru arfer pwerau yn uniongyrchol arno.

Drwy'r ymgynghoriad hwn rydym yn ceisio eich barn ynghylch newidiadau arfaethedig i fap prif afonydd Cymru yn y lleoedd canlynol:

## Afon Lliedi, Llanelli (Sir Gaerfyrddin)

Yn dilyn arolwg teledu cylch cyfyng manwl o Afon Lliedi sylwyd nad oedd aliniad y map prif afonydd cyfredol yn gwbl fanwlgywir. Bwriad y cynnig hwn yw gweithredu amrywiad o'r map prif afonydd gan ddefnyddio gwybodaeth yr arolwg diweddaraf i ddangos Afon Lliedi ar y map prif afonydd mewn mwy o fanylder lle mae'r afon yn llifo drwy gwlfer drwy ganol tref Llanelli.



### Newidiadau i Brif Afon

| Math | Cwrs Dŵr | Pwynt i Fyny'r Afon | Pwynt i Lawr yr Afon | Hyd (m) |
|---|---|---|---|---|
| Amrywiad | Afon Lliedi | SN 50772 00533 | SN 50215 00188 | 656 |

## Afon Bechan, Tregynon (Powys)

Yn dilyn trafodaethau â Chyngor Sir Powys cydnabyddwyd y dylid ailddosbarthu rhan o brif afon ar Afon Bechan yn Nghregynon fel cwrs dŵr cyffredin a'i thynnu oddi ar y map prif afonydd, a hefyd y bydd statws rhan fer o'r sianel yn yr ardal leol yn cael ei uwchraddio, hyd at ochr 'i lawr yr afon' y bont dros ffordd B4389.




### Newidiadau i Brif Afonydd

| Math | Cwrs dŵr | Pwynt i Fyny'r Afon | Pwynt i Lawr yr Afon | Hyd (m) |
|---|---|---|---|---|
| Israddio statws | Cwrs dŵr dienw | SO 09230 98614 | SO 09793 98458 | 675 |
| Uwchraddio statws | Afon Bechan | SO 09698 98396 | SO 09793 98458 | 125 |

## Sut i ymateb

Anfonwch eich sylwadau os gwelwch yn dda erbyn 17:00 ar 29/02/2016, mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

**E-bost:**

main.river.enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

neu drwy

**Post:**

Cyd-gysylltydd Prif Afonydd
Rheoli Perygl Llifogydd a Gweithrediadau
Cyfoeth Naturiol Cymru
29 Heol Casnewydd
Caerdydd, CF24 0TP

## Cyhoeddi canlyniadau ein hymgynghoriad

Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad yn dilyn yr ymgynghoriad ar ein gwefan erbyn 01/03/2016.